

1**Cefndir**

Mae'r adolygiad ymarfer plant yn ymwneud â lleoli dau unigolyn ifanc, sef plentyn X a phlentyn Y, gyda gofalwr maeth Z. Dywedodd y ddau eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol gan ofalwr maeth Z. Mae amserlen yr adolygiad yn cwmpasu cyfnod rhanedig o ryw dair blynedd, gan gwmpasu cyfnod o dri mis a oedd yn gorgyffwrdd pan gafodd y ddau eu lleoli gyda gofalwr maeth Z ar yr un pryd.

Cafwyd gofalwr maeth Z yn euog mewn perthynas â'r cam-drin yr adroddwyd amdano yn erbyn plentyn Y, ac yn ddieuog mewn perthynas â chyhuddiadau'n ymwneud â cham-drin yn erbyn plentyn X. Er mwyn sicrhau cysondeb iaith, defnyddir y geiriau "adroddiad" a "datganiad" i ddisgrifio'r adroddiadau o gam-drin rhywiol a wnaed gan blentyn X a phlentyn Y.

**CYSUR 6 2021****Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig****2****Cyd-destun yr adolygiad ymarfer plant**

Lleolwyd llawer o blant â hanes a phroffiliau cymhleth gyda gofalwr maeth Z. Roedd hyn yn golygu cryn drosiant o ran unigolion a leolwyd gyda'r gofalwr maeth, a diwygiadau wedi'u gwneud i'r telerau cymeradwyo er mwyn darparu ar gyfer y galw mawr. Gwnaed y penderfyniadau lleoli yn adweithiol, ac ni chynhaliwyd asesiadau risg i ystyried risgiau a hanes cymhleth y plant eraill a oedd yn y lleoliad, ochr yn ochr ag anghenion plentyn X a phlentyn Y. Dylai sawl digwyddiad yn y lleoliad fod wedi sbarduno asesiad cynnar o addasrwydd parhaus i faethu gan y panel maethu, gan gynnwys pryderon ynghylch y defnydd o alcohol ac ymwelwyr amhriodol â'r tŷ a phresenoldeb yr heddlu. Nid oedd y digwyddiadau hyn bob amser yn cael eu cynnwys yn adolygiad blynyddol gofalwr maeth Z, ac ni chychwynwyd gweithdrefnau diogelu, yn cynnwys ar gyfer y rhai mewn swyddi o ymddiriedaeth.

7**Gwella systemau ac arfer**

- Gwasanaethau dysgu a datblygu yr awdurdod lleol i sicrhau bod hyfforddiant sy'n benodol i'r rôl ar gael ar gyfer y gwasanaethau maethu a'r panel maethu, gan ganolbwyntio'n benodol ar sbardunau a throthwyon ar gyfer ymholiadau adran 47 (gan gynnwys cymhwyso'r gweithdrefnau hyn i blant sy'n derbyn gofal pan nodir pryderon ynglŷn â diogelu) a honiadau / pryderon o ran diogelu am ymarferwyr a'r rhai sydd mewn swyddi o ymddiriedaeth.

- Yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol i adolygu gyda'i gilydd y meini prawf a'r trothwy ar gyfer atgyfeiriadau i rannu gwybodaeth rhwng yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â chartrefi maethu lle mae'r heddlu wedi ymweld oherwydd digwyddiad.

3**Llais y plentyn**

Roedd gan weithwyr proffesiynol barch mawr at ofalwr maeth Z a'i adroddiadau am ddigwyddiadau yn y lleoliad. Roedd yn amlwg yn achos plentyn X, y datblygwyd naratif gwrthgyferbyniol ohono'n dweud anwiredd, gan olygu nad oedd ei lais na'i farn yn cael eu hystyried gymaint ag y dylent a bod ei fersiynau ef o ddigwyddiadau, yn y pen draw, ddim yn cael eu credu.

Digwyddodd hyn yng nghyd-destun nifer o ddigwyddiadau o fewn y lleoliad a allai fod wedi codi pryder ymhlith gweithwyr proffesiynol ac arwain at chwilfrydedd a herio proffesiynol pellach fel yr amlinellwyd uchod.

6**Gwella systemau ac arfer**

- Gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol i adolygu eu prosesau o ran recriwtio, adolygu a goruchwylio gofalwyr maeth, gan ganolbwyntio ar oruchwylio, cadw cofnodion, rheoli honiadau, cynllunio lleoliadau a pharu, a'r broses adolygu flynyddol yn cynnwys "addasrwydd parhaus".
- Timau maethu i sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau cadarn ar waith mewn perthynas â chynlluniau gofal diogel unigol, cytundebau gofalwyr maeth a chytundebau awdurdod dirprwyedig.
- Timau maethu i sicrhau bod mecanweithiau ar waith i hwyluso'r gwaith o gasglu lleisiau a safbwyntiau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal fel rhan o oruchwylio lleoliadau ac adolygiadau blynyddol, gan gynnwys sianeli y gallant eu defnyddio i gyfathrebu â gweithwyr proffesiynol y gellir ymddiried ynddynt.

5**Arferion da a nodwyd**

- Mae tystiolaeth bod eiriolaeth wedi cael ei chynnig a'i defnyddio'n gadarnhaol.
- Bu plentyn X yn bresennol mewn adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, a chofnodwyd ei farn.
- Cymerodd y bwrdd iechyd nifer o gamau cadarnhaol i gynorthwyo plentyn X o ystyried ei fod yn agored i niwed.
- Rhoddodd yr ymarferwyr ystyriaeth sensitif i'r materion a oedd yn effeithio ar blentyn Y wrth iddynt ymdrechu i ddiwallu ei anghenion gofal a chymorth.
- Roedd addysg yn cynnal lle plentyn X ar gofrestr yr ysgol i gefnogi parhad iddo. O ran plentyn Y, nodwyd bod ei goleg yn bwyt o gryfder a chefnogaeth iddo.

Ceisiodd yr heddlu feithrin perthynas â phlentyn X a'i gefnogi yn dilyn ei adroddiad o gam-drin, ac ymdriniwyd ag adroddiad plentyn Y yn unol â gweithdrefnau.

4**Rôl gofalwr maeth**

Mae'n ymddangos bod gan ofalwr maeth Z lefel anghymesur o reolaeth a'i fod wedi arddel lefel anghymesur o gyfrifoldeb a dylanwad rhiant dirprwyedig mewn perthynas â gofal beunyddiol plentyn X a phlentyn Y, nad oedd yn berthnasol i statws cyfreithiol y plant. Arweiniodd hyn at gymylu cyfatebol yn ffiniau rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd, gan ei roi mewn safle o reolaeth canfyddedig a gwirioneddol. Roedd hyn yn rhwystr ychwanegol i adroddiadau neu fynegiant o bryderon gan y bobl ifanc yn y lleoliad ac unrhyw herio proffesiynol cyfatebol. Mae'n bosibl bod goruchwyliaeth a throsolwg mwy cadarn wedi amlygu'r angen i adlinio disgwyliadau a darparu eglurder mwy cadarn ynghylch paramedrau cyfreithiol rôl a chyfrifoldebau gofalwr maeth Z.